COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 11 CHWEFROR 2009 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Parch H Davies (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr P Wood	Mr S Halsall
Mr J Bader	Mr D Carr
	Grant Thornton
	Mr J Golding
	Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Mr R Thomas
	Ms G Jones

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Claire Thomas o Grant Thornton ac Ann Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru.

1. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2008

1.1 Cafodd y rhain eu cytuno a'u mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd bod cyfarfod pellach o Brif Weithredwyr CNLC wedi'i gynnal cyn cyfarfod a gynhelir ag Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC). **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn archwilio'r posibilrwydd o drefnu cyfarfod o Gadeiryddion CNLC.

2.2 Gwnaed ymholiadau â hwyluswyr cyfarfodydd diweddar Cyfrif Stoc yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y posibilrwydd o drefnu cyfarfod rhyngddynt a'r Comisiynwyr. Derbyniwyd ateb yn datgan gan fod y cyfarfodydd hyn bellach wedi'u cwblhau ni fyddai modd cynnal cyfarfod o'r fath.

2.3 Adroddwyd bod Rheolwr Cyllid y Comisiwn yn methu â mewngofnodi i system TG LlCC ar hyn o bryd gan fod ei broffil defnyddiwr Merlin wedi'i ddileu yn ddiweddar o'r system. Roedd hyn wedi digwydd o ganlyniad i ymarfer gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddileu pob defnyddiwr Merlin nad oedd bellach yn gweithio i Gynulliad Cymru. Roedd hyn yn groes i gytundeb gwreiddiol 2003 rhwng y Comisiwn â LlCC, sef y byddai aelodau staff y Comisiwn i gael yr un mynediad at y system â phobl ar secondiad o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hysbyswyd yr Ysgrifennydd gan Isadran Adnoddau Dynol LlCC er mwyn ailosod y Rheolwr

Cyllid fel defnyddiwr o system Merlin y byddai'n rhaid cynnal gwiriad diogelwch ac ni wyddys faint o amser y byddai hyn yn ei gymryd. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y mater hwn yn allweddol a'i fod yn peri bygythiad sylweddol iawn i'r rheolwr Cyllid allu cyflawni ei ddyletswyddau o ran paratoi cyfrifon diwedd y flwyddyn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn aros am bythefnos i weld a ellid datrys y mater ac os na fyddai hynny wedi digwydd yna dylid codi'r mater ar lefel uwch gyda LlCC. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn hysbysu pennaeth Isadran AD LlCC am y sefyllfa a rhoi gwybod iddo am effaith ddifrifol hyn ar waith y Comisiwn.

2.4 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn archwilio'r posibilrwydd o rannu cyfleusterau TG gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad neu wneud trefniadau TG amgen.

2.5 Adroddwyd bod y Gofrestr Risgiau wedi'i gwirio am faterion yn ymwneud â pharhad busnes a'i bod yn cynnwys hyn.

2.6 Adroddwyd bod yr Ysgrifennydd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Parhaol LlCC i godi'r mater ynghylch Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol diwygiedig y Comisiwn a oedd ar ôl. Ni dderbyniwyd unrhyw ateb hyd yn hyn.

3. Adroddiad ar drosi Mantolen 1 Ebrill 2008 i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

3.1 Esboniodd Mr Golding bod yr adroddiad yn cynnwys manylion ynghylch y trosi sydd i ddod o Safonau Cyfrifo Cyffredinol Derbyniedig y Deyrnas Unedig (UKGAAP) i IFRS. Hyd yn hyn, ailddatganwyd Mantolen 2007-08 er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfrifo IFRS a oedd yn cynnwys ystyried gwyliau heb dâl fel croniad. Aseswyd effaith IFRS ar brydlesi a chontractau a bod mater wedi codi ynghylch statws trefniadau'r Comisiwn â Chynulliad Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau TG Merlin. Nid oedd yn glir p'un a ddylai'r trefniad hwn gael ei ystyried yn brydles ai peidio, a phenderfynasid y byddai'n ddefnyddiol aros i weld beth fyddai ymagwedd Swyddfa Archwilio Cymru tuag at yr holl gyrff a oedd yn defnyddio'r system Merlin.

3.2 Y cam nesaf yn y broses drosi fyddai llunio cyfrifon cysgodol IFRS llawn ar gyfer 2008-09 y byddai eu hangen erbyn haf 2009. Argymhellodd yr adroddiad hefyd bod y Comisiwn yn canfod faint o hyfforddiant yn IFRS roedd eu cyfrifwyr wedi'i dderbyn.

4. Strategaeth Archwilio Ddrafft Archwiliad Allanol

4.1 Esboniodd Mr Golding bod y Strategaeth Archwilio Ddrafft yn amlinellu'r hyn fyddai canolbwynt archwiliad cyfrifon blynyddol 2008-09. Roedd yn nodi cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn amlinellu'r prif risgiau archwilio ynghyd â'r ymatebion a gynigir. Y materion allweddol a nodwyd oedd:

- Paratoi ar gyfer trosi cyfrifon 2008-09 i IFRS;
- Gwirio taliadau diwedd y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau TG Merlin;

- Adolygu'r defnydd parhaol o feddalwedd cyfrifo Sage;
- Adolygu'r gweithdrefnau a'r dogfennau ar gyfer cau lawr diwedd y flwyddyn;
- Adolygu'r dogfennau sy'n amlinellu swyddogaethau'r Ysgrifenyddiaeth a'r cyfrifwyr a gontractiwyd; ac
- Adolygu dogfennau yn amlinellu cyfrifo diwedd y flwyddyn yn ymwneud â chredydwyr, croniadau a dyledwyr.

Roedd y risgiau archwilio hyn yn cynnwys argymhellion o archwiliad y llynedd a fyddai'n cael eu gwirio fel rhan o waith archwiliad 2008-09.

4.2 Byddai Gwaith Sicrwydd Ychwanegol ar gyfer archwilio cyfrifon 2008-09 yn cynnwys eu gwirio fel arfer er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol y Comisiwn a byddai'n cynnwys adolygiad ar thema dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gyfer 2008-09, byddai thema'r adolygiad yn cynnwys trefn lywodraethol TG a threfniadau diogelwch.

4.3 Nodwyd manylion y ffi archwilio ar gyfer archwiliad 2008-09 yn yr archwiliad ac esboniwyd bod y rhain wedi codi 4.8% o gymharu â chostau 2007-08 yn unol â chwyddiant, fodd bynnag, y bu gostegiad o 1.5% i adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd SAC ac felly 3.3% oedd y cynnydd i gostau 2008-09. Codwyd pris un tro ar gyfer y gwaith yn ymwneud â chynorthwyo'r Comisiwn i baratoi ar gyfer trosi cyfrifon 2008-09 i IFRS.

5. Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol

5.1 Esboniodd Mr Thomas bod y Cylch Gorchwyl yn cynnwys blwyddyn olaf strategaeth archwilio pum mlynedd y Comisiwn. Bwriedir i'r archwiliad gychwyn yn ystod mis Chwefror a dilyn yr un patrwm ag mewn blynyddoedd cynt gan gynnwys rheolaeth lefel uchel a fyddai'n ategu Datganiad Rheoliad Mewnol ac yn dilyn ymlaen ar argymhellion y llynedd. Byddai rhan o'r archwiliad yn canolbwyntio ar y cynnydd ynghylch trefniadau arolygon etholiadol er mai dim ond yn ddiweddar y derbyniodd y Comisiwn y cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cymru. Nododd y Comisiwn y Cylch Gorchwyl.

5.2 Gan mai hon oedd blwyddyn olaf y strategaeth bum mlynedd o dan y cytundeb lefel gwasanaeth a luniwyd rhwng y Comisiwn a Gwasanaethau Archwilio Mewnol Cynulliad Cymru, byddai'n rhaid i'r Comisiwn ystyried gwahodd tendrau ar gyfer ei wasanaethau archwilio mewnol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Er mwyn cynorthwyo'r Comisiwn yn hyn o beth, roedd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Cynulliad Cymru wedi paratoi strategaeth archwilio ar gyfer y pum mlynedd nesaf. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn paratoi ymarfer caffael ar gyfer archwilio mewnol am y pum mlynedd nesaf.

6. Cwynion (eitem sefydlog)

6.1 Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn.

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Nid oedd unrhyw fater arall.